# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Hydref 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

# (293)v5

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(15 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

**NDM5854 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r rôl hanfodol y mae cysylltedd rhyngwladol yn ei chwarae o ran cynnal twf economaidd drwy fewnfuddsoddi, masnach a thwristiaeth;

2. Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu cynllun clir i wella cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru;

3. Yn nodi'r cyfleoedd i hybu cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru drwy:

a) dychwelyd Maes Awyr Caerdydd i berchnogaeth breifat; a

b) rhannu'r enillion o'i werthu rhwng buddsoddi mewn seilwaith a dychwelyd y buddsoddiad gwreiddiol i drethdalwyr Cymru.

4. Yn cydnabod y cyfleoedd i hybu cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru drwy gefnogi'r rôl bwysig y mae porthladdoedd Cymru yn ei chwarae o ran sicrhau twf a chreu swyddi;

5. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynlluniau clir i wella'r A40 i Abergwaun a'r A55 i Gaergybi er mwyn gwella cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru; a

6. Yn cydnabod ymhellach y rôl y gall rheilffordd Calon Cymru ei chwarae fel coridor trafnidiaeth ar gyfer canolbarth Cymru, a'i rôl bosibl o ran gyrru cysylltedd Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bwriad datganedig Lywodraeth Cymru o ganfod gweithredwr sector preifat ar gyfer Maes Awyr Caerdydd ar adeg ei brynu ac yn galw am ddiweddariad ysgrifenedig ar gynnydd yn hynny o beth.

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi'r cyfleoedd i hybu cysylltedd rhyngwladol yng Nghymru drwy:

a) cefnogi twf Maes Awyr Caerdydd fel pwynt mynediad i Gymru; a

b) cefnogi cysylltedd rhwng Cymru a meysydd awyr canolog allweddol fel Heathrow a Manceinion.

**Gwelliant 3 – Jane Hutt (Bro Morgannwg) – Tynnwyd yn ôl**

Dileu pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 6 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod ymhellach rôl rheilffyrdd Cymru o ran sicrhau cysylltedd mewnol ac allanol, ac yn cefnogi:

a) datblygu rheilffordd Calon Cymru;

b) trydaneiddio rheilffordd arfordir gogledd Cymru;

c) trydaneiddio prif reilffordd y Great Western a rheilffyrdd y Cymoedd; a

d) trydaneiddio rheiffordd y Gororau.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bylchau sylweddol o ran prosiectau trydaneiddio rheilffyrdd yng nghynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys trydaneiddio llinellau Glyn Ebwy, Ynys y Barri, Bro Morgannwg, Penarth a Maesteg.

Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb i ailosod cysylltiadau rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin i gysylltu â'r rhwydwaith sydd eisoes yn bodoli.

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau

(60 munud)

**NDM5851 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ei ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Awst 2015.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Hydref 2015.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Crynodeb o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM5852 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw am foratoriwm ar unwaith ar unrhyw wariant a chynllunio ar gyfer 'llwybr du' yr M4 tan fydd pobl Cymru yn rhoi mandad pan fyddant yn ethol Llywodraeth nesaf Cymru yn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn croesawu'r ffaith bod cytundeb y gyllideb y cytunodd Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru arno yn sicrhau "na fydd gwaith yn cychwyn i

adeiladu ffordd liniaru'r M4 cyn etholiadau nesaf y Cynulliad" ym mis Mai 2016 ac y byddai astudiaeth effaith amgylcheddol manwl ar y llwybr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, sef y llwybr du, yn cael ei gomisiynu.

Datganiad ar y cyd Llywodraeth Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yn cefnogi:

Edwina Hart (Gŵyr)

*[os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod y bydd unrhyw oedi o ran datblygu ffordd liniaru addas i'r M4 - yn amodol ar archwiliad cynhwysfawr o'r holl opsiynau posibl - yn rhwystro twf economi Cymru, twristiaeth ac integreiddio cymdeithasol yn y dyfodol.

## 7 Cyfnod pleidleisio

## 8 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM5853 Lynne Neagle (Torfaen)**

Mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc - rhoi terfyn ar ddefnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Tachwedd 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2015 i'w hateb ar 21 Hydref 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru)**: Pa bolisïau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i dyfu economi Cymru cyn etholiad nesaf y Cynulliad? OAQ(4)0621(EST)

**2. Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wella amseroedd teithio cymudwyr yng Nghymru? OAQ(4)0629(EST)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: Beth y mae'r Gweinidog yn eu hystyried i fod y prif rwystrau rhag datblygu busnesau ledled Cymru? OAQ(4)0625(EST)

**4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: Pa gymorth sydd ar gael i fusnesau gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0622(EST)

**5. Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0635(EST)**W**

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo beicio? OAQ(4)0630(EST)

**7. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Network Rail? OAQ(4)0636(EST)

**8. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o drafnidiaeth i ysgolion? OAQ(4)0632(EST)

**9. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafnidiaeth i ysgolion? OAQ(4)0634(EST)**W**

**10. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Benfro? OAQ(4)0620(EST)

**11. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru? OAQ(4)0628(EST)

**12. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am deithio ar drenau yn ninas-ranbarth Bae Abertawe? OAQ(4)0619(EST)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella economi Cymru? OAQ(4)0626(EST)

**14. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiadau ynni'r môr oddi ar Ynys Môn? OAQ(4)0631(EST)**W**

**15. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y rheoliadau hygyrchedd cerbydau gwasanaeth cyhoeddus ar weithredwyr gwasanaethau bysiau? OAQ(4)0627(EST)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ynghylch a yw'r Bil Undebau Llafur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad? OAQ(4)0083(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y bydd Bil Cymru yn effeithio ar  hygyrchedd deddfwriaeth ddatganoledig yng Nghymru? OAQ(4)0084(CG)**W**

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

**1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y digwyddiadau a gynhaliwyd fel rhan o wythnos Senedd@Abertawe? OAQ(4)0089(AC)